



OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

**2018 Rhif 554 (Cy. 95)**

**2018 No. 554 (W. 95)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018

The Town and Country Planning  
(General Permitted Development)  
(Amendment) (Wales) Order 2018

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (O.S. 1995/418) ("y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir") o ran Cymru.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac Atodlen 2 iddo yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan fo hawliau o'r fath wedi eu rhoi, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae Dosbarth A o Ran 24 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu datblygu penodol gan weithredwyr cod cyfathrebiadau electronig ar yr amod nad yw'n dod o fewn A.1 (datblygu nas caniateir) ac yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a chyfyngiadau perthnasol yn A.2 ac A.3.

Mae paragraff A.2(4A) yn nodi amodau mewn perthynas ag adeiladu, gosod neu amnewid polion, cabinetau neu linellau telegraff ar gyfer gwasanaethau band eang llinell sefydlog mewn perthynas â categorïau o dir a nodir yn erthygl 1(5) o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir a Rhan 2 o Atodlen 1 iddo. Os bodlonir yr holl amodau perthnasol, nid yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth ymlaen llaw ar gyfer datblygiad o'r fath o dan baragraff A.3. Un o'r amodau hynny yw bod rhaid cwblhau'r datblygiad ar 30 Mai 2018 neu cyn hynny.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn estyn y dyddiad hwnnw i 30 Mai 2019.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (S.I. 1995/418) ("the GPDO") in relation to Wales.

Article 3 of and Schedule 2 to the GPDO confer permitted development rights in respect of certain development. Where such rights are conferred, an application for planning permission is not required.

Class A of Part 24 of Schedule 2 to the GPDO permits certain development by electronic communications code operators provided it does not fall within A.1 (development not permitted) and subject to any relevant conditions and limitations in A.2 and A.3.

Paragraph A.2(4A) sets out conditions in relation to the construction, installation or replacement of telegraph poles, cabinets or lines for fixed line broadband services in relation to categories of land identified in article 1(5) of and Part 2 of Schedule 1 to the GPDO. If all the relevant conditions are satisfied, such development does not require prior approval under paragraph A.3. One of those conditions is that the development must be completed on or before 30 May 2018.

Article 2 of this Order extends that date to 30 May 2019.

Ni luniwyd asesiad effaith ar gyfer y Gorchymyn hwn oherwydd ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar fusnesau, ar elusennau nac ar y sector cyhoeddus y tu hwnt i natur yr hyn a archwiliwyd yn yr asesiad effaith a oedd yn mynd gyda Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (O.S. 2014/2692 (Cy. 267)), a fewnosododd baragraff A.2(4A) yn Rhan 24. Gellir cael copi o'r asesiad hwnnw oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

An impact assessment has not been prepared for this Order as no impact is foreseen on business, charities or the public sector beyond the nature of what was examined in the impact assessment that accompanied the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) (No. 2) Order 2014 (S.I. 2014/2692 (W. 267)), which inserted paragraph A.2(4A) into Part 24. Copies of that assessment can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and on the Welsh Government website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales).

**2018 Rhif 554 (Cy. 95)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018**

*Gwnaed* 2 Mai 2018  
*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 4 Mai 2018  
*Yn dod i rym* 30 Mai 2018

**2018 No. 554 (W. 95)**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

**The Town and Country Planning  
(General Permitted Development)  
(Amendment) (Wales) Order 2018**

*Made* 2 May 2018  
*Laid before the National Assembly  
for Wales* 4 May 2018  
*Coming into force* 30 May 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 60, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mai 2018.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 59, 60, 61 and 333 of the Town and Country Planning Act 1990(1) and now exercisable by them(2), make the following Order:

**Title, commencement and application**

1.—(1) The title of this Order is the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) Order 2018.

(2) This Order comes into force on 30 May 2018.

(3) This Order applies in relation to Wales.

---

(1) 1990 p. 8 ("Deddf 1990"). Diwygiwyd adran 59 gan adran 27 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4) a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi, a chan adran 55 o'r Ddeddf honno a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Diwygiwyd adran 333 gan baragraffau 3 a 6 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno. Nid yw'r diwygiadau eraill i'r adrannau o Ddeddf 1990 y cyfeirir atynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), gweler y cofnodion priodol yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

---

(1) 1990 c. 8 ("the 1990 Act"). Section 59 was amended by section 27 of, and paragraph 3 of Schedule 4 to, and section 55 of and paragraph 5 of Schedule 7 to, the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4). Section 333 was amended by paragraphs 3 and 6 of Schedule 7 to that Act. Other amendments to the sections of the 1990 Act referred to are not relevant to this Order.

(2) The functions of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), see the appropriate entries in Schedule 1. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref  
(Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**

2. Ym mharagraff A.2(4A) o Ran 24 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(1) yn lle “30<sup>th</sup> May 2018” rhodder “30<sup>th</sup> May 2019”.

**Amendment of the Town and Country Planning  
(General Permitted Development) Order 1995**

2. In paragraph A.2(4A) of Part 24 of Schedule 2 to the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995(1) for “30<sup>th</sup> May 2018” substitute “30<sup>th</sup> May 2019”.

*Lesley Griffiths*

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a  
Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru  
2 Mai 2018

Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural  
Affairs, one of the Welsh Ministers  
2 May 2018

---

©<sup>©</sup>Hawlfraint y Goron 2018

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

---

© Crown copyright 2018

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

---

(1) O.S. 1995/418. Amnewidiwyd Rhan 24 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/1878 (Cy. 187)) ac fe'i diwygiwyd gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014 (O.S. 2014/2692 (Cy. 267)).

---

(1) S.I. 1995/418. Part 24 was substituted by the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) Order 2002 (S.I. 2002/1878 (W. 187)) and amended by the Town and Country Planning (General Permitted Development) (Amendment) (Wales) (No. 2) Order 2014 (S.I. 2014/2692 (W. 267)).







---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2018 Rhif 554 (Cy. 95)**

**2018 No. 554 (W. 95)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2018

The Town and Country Planning  
(General Permitted Development)  
(Amendment) (Wales) Order 2018

£4.25

W201805021005 05/2018

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2018/554>

ISBN 978-0-348-20234-2



9 780348 202342